



Gwasanaeth Democraidd
Democracy Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DEMOCRATIC SERVICE COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.00 a.m. DYDD MAWRTH, 11 RHAGFYR, 2012

10.00 a.m. TUESDAY, 11 DECEMBER, 2012

Lleoliad / Location

SIAMBR ARFON/CHAMBER
SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES
PENRALLT, CAERNARFON

****Noder y man cyfarfod os gwelwch yn dda/Please note the meeting place****

Pwynt Cyswllt / Contact Point

IOAN HUGHES

(01286) 679780

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 4.12.12

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

AELODAETH / MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (7)

Y Cynghorwyr / Councillors

Selwyn Griffiths
Dyfrig Jones
Dilwyn Morgan

Charles Wyn Jones
Linda Ann Wyn Jones
Gareth Thomas

Mandy Williams-Davies

Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day	Tom Ellis
Anne Lloyd-Jones	Dewi Owen

Llais Gwynedd (3)

Endaf Cooke

Jason Humphreys

Anwen Davies

Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council
Y Cynghorwyr / Councillors Selwyn Griffiths a / and Huw Edwards

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2012 fel rhai cywir (copi yma – papur **melyn**).

5. HYFFORDDIANT AELODAU

Ystyried adroddiad Cadeirydd yr Is-grŵp Hyfforddiant, (copi yma – papur **pinc**).

6. ADRODDIADAU AELODAU

Ystyried adroddiad Rheolwr Gwasanaethau Democraidd, (copi yma – papur **hufen**).

7. TECHNOLEG GWYBODAETH

Ystyried adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd, (copi yma – papur **lelog**)

8. DIWEDDARIAD AR SEFYLLFA HYFFORDDIANT

Cyflwyno adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 11.09.12

Yn bresennol: Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Lesley Day, Tom Ellis, Jason Humphreys, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan a Mandy Williams-Davies.

Aelodau Cabinet: Y Cynghorwyr Dyfed Edwards (Arweinydd y Cabinet a'r Cyngor) ac Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer).

Swyddogion: Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Huw Ynyr (Uwch Reolwr – TG a Thrawsnewid Busnes), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Anwen Davies, Selwyn Griffiths, Dyfrig Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones a Gareth Thomas.

Dymunwyd gwellhad buan i Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella) yn dilyn ei anhwylder diweddar.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mai, 2012 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Jason Humphreys yn bresennol yn y cyfarfod.

3. CEFNOGAETH I AELODAU – SYLWADAU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Cadeirydd yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniodd mewn ymateb i lythyr a anfonwyd ganddo at ei gyd-aelodau yn egluro rôl y pwyllgor hwn o safbwynt cefnogi aelodau.

Ymhelaethodd y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd ar y sylwadau a ddaeth i law.

Galwodd y Cadeirydd am hyfforddiant i'r aelodau newydd yn y meysydd gwaith y mae'r pwyllgorau craffu yn edrych arnynt.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr – TG a Thrawsnewid Busnes ddiweddariad o'r sefyllfa o ran cyflwyno iPads i'r aelodau.

Derbyniwyd argraffiadau'r Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer ac Arweinydd y Cyngor yn sgil treialu'r defnydd o iPads dros y ddeufis diwethaf. Nodwyd y cafwyd rhai anawsterau a bod rhai cyfyngiadau, ond bod hyfforddiant yn allweddol ar gyfer aelodau sydd yn fwy cyffyrddus gyda phapur. Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai uchelgais y Cyngor oedd peidio

defnyddio papur fel norm. 'Roedd hyn yn mynd i gymryd amser, ond nid oedd yna unrhyw reswm pam na ellid gwneud hynny.

Ymatebodd yr Uwch Reolwr - TG a Thrawsnewid Busnes y gellir datrys anawsterau gydag agor dogfennau a phwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd cyfarwyddo'r holl adrannau i gyflwyno dogfennau i'r aelodau yn y ffurf fwyaf cywasgedig ar bob achlysur.

Mynegodd y Cadeirydd ei bryder y byddai nifer sylweddol o'r aelodau yn dal i ddymuno copïau papur o ddogfennau, ac 'roedd yr aelodau a oedd yn bresennol yn amrywiol eu barn ar y mater.

Nodwyd y gallai fod yn anodd dilyn dogfen ar yr iPad os nad yw'r tudalennau wedi'u rhifo a bod angen i bob dogfen ddilyn yr un safon o safbwynt templed, rhifo tudalennau, ayb.

Nododd y Cadeirydd:-

- (1) mai'r neges glir oedd bod yr hyfforddiant a'r perswâd yn hynod bwysig. Awgrymodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol y gellid manteisio ar brofiad yr aelodau hynny sydd eisoes yn defnyddio'r dechnoleg newydd i gyflawni eu gwaith fel aelodau o gyrff eraill, megis Awdurdod yr Heddlu, pan yn penderfynu sut orau i strwythuro'r hyfforddiant.
- (2) ei bod yn bwysig amserlennu'r hyfforddiant cyn gynted â phosib' fel bod modd i'r aelodau gadw'r dyddiadau'n rhydd.
- (3) ei bod yn bwysig sicrhau bod yna rywun ar ben arall y ffôn i helpu'r aelodau ac ymhelaethodd yr Uwch Reolwr - TG a Thrawsnewid Busnes ar y gefnogaeth a ddarperir gan Ddesg Gymorth y Cyngor.

Holwyd am y posibilrwydd o ddarparu iPads 3G. Atebodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol na ragwelai fod angen 3G ar gyfer trwch yr aelodau gan fod ganddynt gyswllt band eang gartref a bod Wi-fi ar gael yn holl ystafelloedd cyfarfod y Cyngor, ac ati. Fodd bynnag, os oedd natur gwaith yr aelodau yn golygu eu bod yn mynychu llawer o gyfarfodydd allanol, efallai bod yna ddadl dros gael rhai modelau 3G, a chytunodd i edrych i mewn i'r sefyllfa.

PENDERFYNWYD symud ymlaen gydag uchelgais y Cyngor o beidio defnyddio papur fel norm, gan gofio negeseuon y drafodaeth uchod.

4. CEFNOGAETH I AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno gwybodaeth am gefnogaeth i aelodau ac yn gwahodd y pwyllgor i herio'r cynnydd ar ddatblygiadau.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol fod yr Arweinydd am bwysleisio fod y Cabinet yn clywed y neges bod aelodau eraill yn teimlo nad ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd nac yn gallu dylanwadu a bod y symudiad tuag at gynnal cymorthfeydd, gweithdai, ac ati, yn fodd o oresgyn hynny.

Ymhelaethodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ar y gwahanol bwyntiau wrth fynd drwy'r adroddiad.

Mynegwyd pryder bod Aelodau Cabinet yn siarad yn y wasg ar faterion sy'n effeithio ar wardiau penodol heb gysylltu â'r aelod lleol.

Mynegwyd anfodlonrwydd hefyd ynglŷn â hawliau'r aelod lleol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio ar y sail nad oedd modd iddynt ymateb yn ystod, nac ar ddiwedd y drafodaeth.

PENDERFYNWYD

- (a) **Cyflwyno'r adroddiad hwn i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn ar 4 Hydref er mwyn codi ymwybyddiaeth yr aelodau o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt, neu sydd wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.**
- (b) **Cynnwys rhan ychwanegol i'r adroddiad ynglŷn â rôl a hawliau'r aelod lleol, sy'n esbonio sut y gall aelod lleol gael gwybodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn ei ward, ei hawliau mewn perthynas â'r Cabinet a sut i gysylltu ag Aelod Cabinet os nad yw wedi cael ei fodloni gan ymateb swyddog. Dylid pwysleisio hefyd bod disgwyl i Aelod Cabinet (neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran) gysylltu â'r aelod lleol mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar ei ward.**
- (c) **Cyfeirio'r sylw ynglŷn â hawliau'r aelod lleol yn y Pwyllgor Cynllunio i'r Pennaeth Rheoleiddio a'r Swyddog Monitro gan ofyn iddynt gyd-drafod a dod yn ôl at yr aelodau.**

5. ADRODDIADAU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Cadeirydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd yn manylu ar y gofyn tebygol ym Mesur Llywodraeth Cymru (2011) i bob aelod etholedig gyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch ei weithgareddau fel aelod o'r awdurdod ac yn gofyn i'r pwyllgor gynnig arweiniad cychwynnol ar natur a fformat yr adroddiad er mwyn cwblhau gwaith pellach arno.

PENDERFYNWYD

- (a) **Cynnwys y mater yn yr adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn ar 4 Hydref er mwyn codi ymwybyddiaeth yr holl aelodau o'r disgwyliad tebygol arnynt i gyhoeddi adroddiadau blynyddol, gan awgrymu bod pawb yn cychwyn cadw cofnod o'u prif weithgareddau.**
- (b) **Gwahodd sylwadau'r aelodau ar y model o adroddiad blynyddol a ddatblygwyd gan Gyngor Penybont-ar-Ogwr.**
- (c) **Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd yn llunio adroddiad pellach yn argymhell y ffordd ymlaen i'r pwyllgor hwn a bod ei hargymhellion:-**
 - **Yn ymateb i'r ystyriaethau a nodwyd yn rhan (3) o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn;**
 - **Yn dilyn / ymateb i'r canllawiau pellach sydd i'w cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru;**
 - **Yn seiliedig ar waith ymchwil pellach i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru yn gyfredol.**

6. HYFFORDDIANT AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Cadeirydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd yn gwahodd y pwyllgor i argymhell y ffordd ymlaen gyda datblygiadau hyfforddiant.

Mewn ymateb i gwynion am wrthdaro diweddar rhwng cyfarfod o Gydbwyllgor Ymgynghorol Lleol y Cyngor a Sesiwn Anwytho Cynghorau Gogledd Cymru i aelodau a

newid yn amser y sesiwn, ymddiheurwyd am y sefyllfa gan nodi y gofynnid bellach i'r holl swyddogion wirio dyddiadur electronig y Cyngor cyn trefnu unrhyw gyfarfodydd aelodau.

PENDERFYNWYD

- (a) **Sefydlu is-grŵp o'r pwyllgor hwn (sef y Cadeirydd ynghyd â'r Cyngorwyr Lesley Day, Dilwyn Morgan a Mandy Williams-Davies) i drafod hyfforddiant ychwanegol i aelodau a gofynion y dyfodol, ynghyd ag unrhyw faterion eraill perthnasol i hyfforddiant, gyda'r Rheolwr Dysgu a Datblygu a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, gan adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf ar 11 Rhagfyr, 2012.**
- (b) **Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â'r Cynghorydd Jason Humphreys (oedd wedi gorfod gadael y cyfarfod yn gynnar) i ofyn a fyddai ganddo ef, neu aelod arall o Lais Gwynedd ar y pwyllgor, ddiddordeb mewn gwasanaethu ar yr is-grŵp.**

7. ADNODDAU I GEFNOGI GWAITH AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella yn argymhell gwneud cais i ddileu cynllun i sicrhau arbediad o £54,000 yng nghyllideb yr hen Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn 2013/14. Eglurodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, yn sgil trosglwyddo'r Gwasanaethau Democrataidd i'r Adran Strategol a Gwella ac edrych o'r newydd ar yr anghenion, y daeth yn amlwg na fyddai modd gwireddu'r arbediad a pharhau i roi'r gefnogaeth angenrheidiol i aelodau'r Cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn nad oes modd gwireddu'r cynllun arbediad a chyflawni'r angen o roi'r gefnogaeth angenrheidiol i aelodau'r Cyngor gan wneud cais i'r Aelod Cabinet - Adnoddau y bydd modd addasu'r Strategaeth Arbedion i gydnabod hynny.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.50am.

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIADD
DYDDIAD	11/12/2012
PWNC	Hyfforddiant Aelodau
PWRPAS	Cytuno meini prawf ar gyfer mynychu hyfforddiant neu gyrsiau ychwanegol sydd y tu allan i'r matrices hyfforddiant corfforaethol
AWDUR	Cynghorydd Dilwyn Morgan Cadeirydd is-grwp Hyfforddiant

1. Beth yw'r sefyllfa gyfredol?

1.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu aelodau etholedig i'w galluogi i gyflawni holl elfennau eu gwaith yn effeithiol.

1.2 Mae'r Canllawiau Statudol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011 yn nodi

"...mai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros benderfynu beth ddylid eu hystyried yn gyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol fel rhan o'i swyddogaeth i ddarparu cefnogaeth i aelodau gyflawni eu swyddogaethau."

1.3 Mae rhaglen o hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig wedi ei ddatblygu a'i chyhoeddi ar gyfer 2012/13. Rhannwyd y rhaglen gyda phob aelod etholedig ar ddechrau'r Cyngor newydd. Mae'r rhaglen yn gyfuniad o gyrsiau sy'n cael eu datblygu a'u darparu'n fewnol, yn hyfforddiant gan gyrff allanol, rhai yn benodol i Wynedd ac eraill yn ddatblygiadau ar y cyd ar draws awdurdodau Gogledd Cymru. Bydd unrhyw ddiweddariadau i'r rhaglen yn cael eu cyfathrebu yn gyson gydag aelodau etholedig.

1.4 Yn ychwanegol i'r rhaglen hyfforddiant uchod, mae nifer o aelodau yn adnabod meysydd penodol sydd o ddiddordeb iddynt hwy i ddatblygu ac ehangu eu gwybodaeth ymhellach i'w galluogi i gyflawni eu rol fel aelod etholedig yn well. Maent yn gyfuniad o gyrsiau, seminarau a chynadleddau.

1.5 Mae'r hyfforddiant penodol yma y tu allan i'r fframwaith ddatblygu aelodau. I bwrpas yr adroddiad hwn, fe gyfeirir atynt o hyn allan fel 'cyrsiau ychwanegol'. Mae cost ychwanegol i'r Cyngor ynghlwm â'r mwyafrif o'r cyrsiau/seminarau hyn - boed yn gost mynychu ac/ neu yn gostau teithio a chynhaliaeth a rhaid cofio hyn.

1.6 Yn gyfredol, nid oes trefn yn bod i sicrhau tegwch a chysondeb wrth benderfynu pwy sydd yn cael caniatad i fynychu 'cyrsiau ychwanegol'. Tra bo'r Cyngor yn croesawu yr awydd gan aelodau etholedig i ddatblygu ymhellach, mae'r ochr ariannol ar y llaw arall yn pwysu, ac felly mae'n rhaid gweithredu o fewn y cyfyngiadau.

2. Meini Prawf ddrafft

2.1 Er mwyn ceisio sicrhau cysondeb, a gwerth am arian, argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn mabwysiadu meini prawf ar gyfer asesu pwy sydd â'r hawl i fynychu 'cyrsiau ychwanegol'.

2.2 Sefydlwyd i'r is-grwp hyfforddiant, gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar y 11eg o Fedi, 2012, ac mae'r mater uchod yn un o'r materion a ystyriwyd ganddynt. Penderfynwyd argymhell a) meini prawf, gweler 2.3, a b) trefn ar gyfer gweinyddu, gweler 2.4.

2.3 Lluniwyd y 'cwestiynnau' / meini prawf isod gan yr is-grwp hyfforddiant, ac argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn eu mabwysiadu ar gyfer eu gweithredu.

- Dylai'r aelod etholedig ddal swydd neu gyfrifoldeb yn y maes ar ran y Cyngor a dylia fedru dangos bod mynychu'r "cwrs ychwanegol" yn ei (g)alluogi i ymgymeryd â'u dyletswyddau yn well.

Gall y swydd neu gyfrifoldeb hynny fod fel:-

- Cadeirydd neu Is-gadeirydd Craffu,
- Aelod Cabinet
- Pencampwr
- Aelod o'r Pwyllgor Pensiynau
- Cadeirydd neu Is-gadeirydd unrhyw bwyllgor arall.
- Cynrychioli Gwynedd fel Aelod o gorff allanol
- Aelod etholedig unigol sy'n rhan o Ymchwiliad Craffu, lle y byddai mynychu'r cwrs yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r Ymchwiliad Craffu.
(DS. Bydd unrhyw ymweliadau gan sawl aelod fel rhan o Ymchwiliad Craffu yn cael ei ystyried fel rhan o waith yr ymchwiliad a nid fel "cwrs")

- Ni ddylai'r "cwrs ychwanegol" fod ar gael o fewn y Rhaglen Hyfforddiant Aelodau Etholedig neu bod modd ei drefnu mewn ffordd gwahanol ar gyfer criw o aelodau yn fewnol er mwyn lleihau'r gost.
- Dylid ystyried a yw'r cwrs yn cynnig gwerth am arian, hynny yw, fod cost y cwrs yn faen prawf.
- Dylid ceisio osgoi teithio drwy drefnu, os yn bosib, i gymryd rhan neu wrando ar y "cwrs ychwanegol" drwy ddulliau amgen ee webinar / fideo gynhadledd
- Anelu at uchafswm o 2 "gwrs ychwanegol" fesul aelod ym mhob blwyddyn
- Rhaid ystyried perthnasedd y cwrs i raglen ddatblygu personol yr aelod etholedig.

2.4 Yn ogystal, lluniwyd y camau isod fel trefn ar gyfer asesu a sicrhau tegwch i'r holl aelodau. Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn mabwysiadu'r drefn a ganlyn ar gyfer cyflwyno ceisiadau a'u hawdurdodi.

- Dylai aelod gyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig (ar lythyr neu e-bost) gan esbonio sut y maent yn cyrraedd y meini prawf
- Dylid sicrhau fod gan yr aelod eilydd i'r cais, ee Cadeirydd neu is-Gadeirydd pwyllgor penodol yn cefnogi cais gan aelod unigol yn rhinwedd ei rol.
- Dylid cyflwyno'r cais o leiaf bythefnos rhag blaen i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a fydd yn ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cyn penderfynu ar y cais neu beidio

- Yr uchod i asesu y cais yn erbyn y meini prawf a gadael i'r aelod wybod y canlyniad. Dylid hefyd sicrhau fod trefniadau adrodd nôl a chrynhoi/ rhannu'r wybodaeth ychwanegol yn glir (Bydd hwn yn amrywio fesul cais/ maes).

3. Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd :-

- fabwysiadu y meini prawf a nodwyd yn 2.3 a'r camau gweithredu a nodwyd yn 2.4 ar gyfer eu gweithredu.

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIADD
DYDDIAD	13 Tachwedd 2012
PWNC	Adroddiadau Aelodau
PWRPAS	Cyflwyno'r gofynion ac argymell sut y mae Gwynedd am ymateb i'r gofynion.
AWDUR	Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

1. Beth yw'r gofynion?

1.1 Mae Mesur Llywodraeth Lleol Cymru (2011) yn nodi:-

*“(1) Rhaid i awdurdod lleol **wneud trefniadau**—*

(a) i bob person sy'n aelod o'r awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,

(b) i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, ac

(c) i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

(2) Caiff y trefniadau gynnwys amodau o ran cynnwys adroddiad y mae'n rhaid iddynt gael eu bodloni gan y person sydd yn ei lunio.

(3) Rhaid i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau.

(4) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.”

1.2 Bwriad yr Adroddiad Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig a'r cyheodd. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol yn nodi y bydd yr adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu aelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt. Mae hefyd wedi nodi y bydd yn rhydd i bob awdurdod lleol ddewis eu fformat eu hunain ar gyfer yr adroddiadau.

1.3 Yn ychwanegol i'r Mesur, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi dogfen arweiniol i fod o gymorth i awdurdodau lleol wrth ymgorffori'r ddeddf, sef “*Canllawiau Statudol ar Fesur Llywodraeth Lleol 2011 – Mehefin 2012*”. Gweler **Atodiad A**.

2. Beth mae awdurdodau eraill wedi wneud hyd yma?

- 2.1 Mae 'Adroddiadau Blynyddol' gan aelodau etholedig wedi bodoli yn Lloegr ers rhai blynyddol, ac mae dehongliad gwahanol gan wahanol awdurdodau o beth ddylid ei gynnwys ac ar pa fformat y dylid gwneud hynny. Mae'n amrywio o roi dalen lan i aelodau etholedig i ysgrifennu unrhyw beth y maent yn ei ystyried i fod o ddi-ddordeb i'r cyhoedd am eu gwaith. Yn yr achosion o ddalen lân mae rhai aelodau etholedig wedi defnyddio'r adroddiadau ar gyfer propoganda gwleidyddol ac o ddifrio pleidiau gwleidyddol eraill. Yn sgil hynny, mae nifer o awdurdodau wedi ffafrio mwy o strwythur i'r adroddiadau.
- 2.2 Mae'n ddefnyddiol bob amser i chwilio am ymarfer da, ac ystyried datblygiadau sy'n digwydd yn gyfredol gan awdurdodau eraill. Yng Nghymru, Penybont-ar-ogwr yw'r awdurdod sydd wedi buddsoddi'r amser mwyaf ar ymchwil a datblygu trefniadau ar hyn o bryd. Rydym wedi ceisio gwybodaeth gan gynghorau eraill hefyd, ac yn parhau i ddisgwyl ymatebion.
- 2.3 Mae Penybont-ar-Ogwr wedi datblygu model sydd yn cyd-fynd â'r canllawiau isod;
 - Dogfen ffeithiol, ddiddorol ac anwleidyddol
 - Dwy dudalen o faint ar y mwyaf
 - Adrodd ar 5 maes penodol
 - Rôl a chyfrifoldeb
 - Digwyddiadau o fewn yr etholaeth
 - Mentergarwch a gweithgareddau arbennig
 - Dysgu a Datblygu
 - Digwyddiadau a Materion eraill
- 2.4 Gellir gweld dogfen esiampl gan Benybont-ar-Ogwr yn **Atodiad B**.

3. Ystyriaethau gan yr Is-grwp.

- 3.1 Yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2012, bu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd benderfynu sefydlu is-grwp hyfforddiant i ystyried gofynion hyfforddiant a gofynion eraill i'r dyfodol.
- 3.2 Yng nghyd-destun yr adroddiadau blynyddol, bu i'r is-grwp ystyried a oedd angen datblygu templed neu beidio. Penderfynwyd argymhell i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylid darparu templed ar gyfer yr aelodau oedd yn dymuno cynhyrchu adroddiadau gan y byddai o gymorth, yn unffurf, ac yn cyfyngu yr aelodau i ffeithiau yn unig. Nododd y grwp hefyd y gallai aelodau gynnwys materion ychwanegol sy'n bwysig yn eu tyb hwy, ond sy'n cadw o fewn y canllawiau cyfreithiol.

4. Argymhellion

- 4.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried llunio a datblygu templed (yn seiliedig ar dempled Penybont ar ogwr) ynghyd a chanllawiau penodol ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol Aelodau Etholedig yn hytrach nag i bob Aelod lunio ei adroddiad ei hun.

ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU O AWDURDOD LLEOL

Cyflwyniad

Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn cynnwys darpariaethau a fwriadwyd i gryfhau democratiaeth leol. Mae Pennod 1 o'r Rhan honno'n ymwneud â'r gefnogaeth a roddir i aelodau o awdurdod lleol ac mae adran 5 o'r bennod honno'n cyfeirio at baratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer yr aelodau hyn. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 5(4) o'r Mesur. Mae'r canllawiau yn ymwneud â threfniadau awdurdodau lleol i lunio adroddiadau blynyddol.

Yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y Mesur

Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (awdurdodau lleol) sicrhau bod pob un o'u haelodau etholedig yn gallu llunio adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau fel aelod o'r cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae hyn yn cynnwys galluogi unrhyw aelod o weithrediaeth y cyngor i adrodd ar ei weithgareddau fel aelod o'r weithrediaeth. Rhaid i'r cyngor dan sylw gyhoeddi unrhyw adroddiadau y bydd aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn eu llunio. Gall yr awdurdod lleol bennu amodau/terfynau ar yr hyn sy'n cael ei gynnwys mewn adroddiad.

Rhaid i'r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol, ac wrth wneud y trefniadau hynny, rhaid iddo roi sylw i'r canllawiau hyn.

Canllawiau

Dyletswyddau awdurdod lleol Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau sy'n galluogi ei aelodau i lunio adroddiadau blynyddol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo ddweud wrth ei aelodau sut i'w llunio ac erbyn pryd i'w llunio. Mae'r Mesur, yn adran 8 a'r adrannau sy'n dilyn, yn nodi mai'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democraidaidd, fel y'u diffinnir yn adran 9. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i roi cymorth a chyngor i aelodau i'w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau, ac mae trefnu proses yr adroddiadau blynyddol yn perthyn i'r categori hwn. Mae'r Mesur yn atal y Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd rhag rhoi cymorth a chyngor i aelod yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau gweithredol fel aelod o weithrediaeth. Er hynny, nid yw llunio adroddiad blynyddol yn swyddogaeth weithredol ynddi'i hun, hyd yn oed os yw'n cyfeirio at weithgareddau'r cynghorydd fel aelod o'r weithrediaeth. Rhagwelir y bydd yr adroddiadau blynyddol cyntaf yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin 2013 fan bellaf.

Cyhoeddi adroddiadau

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu sut y bydd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol. Disgwylir i'r awdurdod gynnwys dolen i adroddiadau blynyddol yr aelodau, o leiaf, a hynny ar y rhan honno o wefan yr awdurdod sy'n dangos manylion aelodau unigol. Nid oes disgwyl i'r awdurdod drefnu unrhyw gyhoeddusrwydd y tu hwnt i hyn, ac os yw'n penderfynu rhoi cyhoeddusrwydd pellach i'r adroddiadau, dylai ofalu ei fod yn gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer pob aelod. Felly, os bydd aelod yn gofyn i awdurdod roi mwy o gyhoeddusrwydd i'w adroddiad, dylid gwrthod y cais hwnnw oni bai fod mwy o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i adroddiad pob aelod.

Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod eu gwefan yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno adroddiadau blynyddol a sut y gall aelodau'r cyhoedd eu gweld.

Cynnwys yr adroddiadau

Prif bwrpas yr adroddiadau yw galluogi aelodau'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol. Gall awdurdodau lleol roi eu cyfyngiadau eu hunain ar gynnwys adroddiadau. Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylai adroddiadau blynyddol ei chynnwys. Mae hynny'n awgrymu mai gwybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau ac ati a fynychwyd gan y cynghorydd y dylid ei chynnwys yn bennaf, ynghyd ag unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu. Er y gallai fod yn dderbyniol cynnwys gwybodaeth fod aelod "wedi gwneud sylwadau ar ran yr ymgyrch i achub yr ysbyty lleol yn y ffyrdd canlynol", ni fyddai'n dderbyniol dweud fod aelod "wedi llwyddo i achub yr ysbyty lleol yn sgil ei ymdrechion ar ran ei etholwyr."

Yn yr un modd, dylid osgoi cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau yn ymwneud â gweithgareddau a gwblhaodd yr aelod y tu hwnt i'w rôl fel cynghorydd. Felly, er y byddai'n dderbyniol cynnwys gwybodaeth am araith a roddodd aelod mewn cynhadledd yr oedd yn ei mynychu yn rhinwedd ei rôl yn y cyngor, ni fyddai'n dderbyniol cyfeirio at araith a roddodd mewn cynhadledd plaid wleidyddol, er enghraifft, ac yntau yno fel cynrychiolydd cangen leol ei blaid.

Dylid gofalu hefyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei dehongli fel beirniadaeth o aelod arall. Er enghraifft, ni fyddai'n dderbyniol i aelod gymharu ei bresenoldeb neu ei weithgareddau â rhai aelod arall neu aelodau eraill.

Awgrymir y dylid cynnwys yr eitemau safonol canlynol:

- Rôl a chyfrifoldebau – gan gynnwys manylion aelodaeth o bwyllgorau a chyrrff allanol, cofnodion presenoldeb yn y rhain ac yn y cyngor llawn.
- Gweithgarwch lleol – manylion unrhyw gymorthfeydd a gynhaliwyd a sylwadau a wnaed ar ran etholwyr, a chanlyniadau'r rhain.
- Prosiectau mawr – manylion unrhyw fentrau neu brosiectau lleol, sirol neu ranbarthol y bu'r aelod yn rhan ohonynt.
- Dysgu a datblygu – manylion digwyddiadau hyfforddi a datblygu a fynychwyd neu a ddilynwyd, a chynadleddau a seminarau a fynychwyd

Sampl - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Dyma adroddiad gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau dros y flwyddyn yn diweddu ar 30 Ebrill 2012. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall.

Cyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau.

Mae Cyngorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu cyn lleied o wybodaeth ac a ddymunant, fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i'r fformat hwn o 2 dudalen (ar y mwyaf).

Cynghorydd: **U.N. Arall**

Plaid: **Y Blaid Ganol**

Ward: **Trefain**

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf yn eistedd ar y pwyllgorau a ganlyn:

Fforwm Cyngor Tref a Chymuned

Presenoldeb X/X

Pwyllgor Craffu a Throsolwg a Llywodraethu a Diogelwch Cymunedol

Presenoldeb X/X

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Lles

Presenoldeb X/X

Pwyllgor Craffu a Throsolwg a Gwella ac Adnoddau Corfforaethol

Presenoldeb X/X

Rwyf yn eistedd ar y pwyllgorau allanol a ganlyn:

Presenoldeb X/X

Ymddiriedolaeth Neuadd y Dref, Pen-y-bont

Presenoldeb X/X

Panel Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol

Presenoldeb X/X

Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Trefain

Presenoldeb X/X

Cyngor Cymuned Llanfaes

Presenoldeb X/X

Pwyllgor Rheoli Coleg Cymunedol Trefain

Presenoldeb X/X

Grŵp Rheoli Sbwriel Trefain

Presenoldeb X/X

Grŵp Llywio Cyngor ar Bopeth Pen-y-bont

Presenoldeb X/X

† ffigyrau a ddarparwyd gan y Cynghorydd

† ffigyrau a ddarparwyd gan CBS Pen-y-bont

Adran 2: Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Byddaf yn cynnal cymorthfeydd yn yr etholaeth amser cinio ddydd Gwener rhwng 1pm a 3pm yng Nghanolfan Gymunedol Trefain.

Mynychu cyfarfodydd PACT lleol yn rheolaidd ac rwyf yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw gwynion neu gwestiynau yn amserol.

Byddaf yn paratoi a danfon cylchlythyr bob chwarter i bob cyfeiriad yn fy etholaeth - bydd y cylchlythyr yn seiliedig ar y testunau rwyf i yn credu bod fy etholwyr yn dymuno cael gwybodaeth yn eu cylch.

Byddaf yn cefnogi unigolion sy'n cysylltu â mi ar ystod eang o faterion ac rwyf wedi gweithredu fel eiriolwr mewn materion Cynllunio, anghydfod mewn cymdogaethau yn gysylltiedig â'r Heddlu a Chyngor Pen-y-bont, Asiantaeth yr Amgylchedd, materion Priffyrdd a cheisiadau am Wasanaethau Cymdeithasol.

Byddaf yn derbyn nifer fawr o alwadau ffôn gan breswylwyr yn gofyn am gyngor a chymorth ar ystod o faterion personol ac rwyf wastad yn fodlon gwrandao ar eu pryderon a chynnig cefnogaeth briodol.

Rwyf wedi rhoi sgwrs yng nghyfarfod Cyngor Tref a Chymuned Trefain ar 'Fy rôl fel Cynghorydd' ac rwyf wedi cymryd rhan yn 'Beth yw eich Barn' fel aelod o'r Panel.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Drwy gyfathrebu â Phwyllgor Trafnidiaeth Bro Morgannwg bîm yn llwyddiannus yn cyflwyno gwasanaeth

bws newydd rhwng Stryd Gorfforaethol yn Nhrefain a Gorsaf Fysiau Ganolog Pen-y-bont. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg pedair gwaith bob bore yn ystod yr wythnos a gwasanaeth yr un mor aml yn fuan gyda'r nos, gan sicrhau trafnidiaeth gyhoeddus i Ben-y-bont ar gyfer y preswylwyr.

Gofynnwyd i mi drefnu arolwg ynglŷn â'r posibilrwydd o gyflwyno system traffig unffordd ar gyfer Ffordd Caerdydd a'r Sgwâr yn Nhrefain. Nid oedd yr ymateb i'r arolwg yn eang o ran y nifer o blaid y bwriad ac mae wedi'i roi o'r neilltu erbyn hyn. Ysgrifennais i bob un o'r preswylwyr a ymatebodd i'r arolwg yn datgan fy ngwerthfawrogiad am eu hymdrechion ac yn amlinellu'r canlyniadau.

Gyda chymorth pobl ifanc ac Adran Hamdden CBS Pen-y-bont, rwyf wedi cefnogi datblygu'r parth sgrialu newydd ym Mharc Trefain rhwng mis Mai a mis Medi bob blwyddyn.

Yn ogystal, rwyf wedi cefnogi atgyweirio'r Lawnt Fowlio yng Nghanolfan Gymunedol Trefain ac erbyn hyn mae mwy na 120 o aelodau selog o Glwb Bowlio Trefain. Bwriad y clwb yw agor adran iau yn ystod misoedd yr haf eleni - felly dylai etholwyr gadw llygad barcud am fwy o newyddion ar y pwnc hwn yn y wasg a chyhoeddiadau lleol.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau Dysgu a Datblygu a ganlyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Hyfforddiant Rhiantu Corfforaethol

Hyfforddiant Asesu Risg ar gyfer y Gyfadran Plant

Hyfforddiant 'Yr economi gyda'r nos'

TGCh - Hyfforddiant Rhyngrwyd a Mewnwyd

Hyfforddiant Rheoli Prosiect a Rhaglen

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau

Hyfforddiant Dehongli a Dadansoddi'r Gyllideb

Rwyf wedi mynychu'r cyfarfodydd briffio cyn y Cyngor fel a ganlyn:

Ymweliadau Rota i Sefydliadau Gofal Preswyl

Gofal a Thrwsio Pen-y-bont

Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadlanciau

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Mae gan breswylwyr Trefain bryderon difrifol ynghylch y tir cyfagos i Barc Trefain am eu bod yn ofni y caiff ei ddatblygu yn Barc Manwerthu. Rwyf wedi cefnogi preswylwyr lleol mewn protest yn erbyn y fath ddatblygiad a chredaf y byddai'n newid nodweddion allweddol y gymuned leol a pheri ardrawiad sylweddol ar y problemau traffig presennol yn yr ardal. Rwyf wedi mynychu dau ymchwiliad apêl a byddaf yn parhau i wrthwynebu cynlluniau o'r fath am ddatblygiad fel hyn.

Rwyf yn gefnogwr cryf o'r grŵp gweithredu 'Cadwch ein Meysydd Chwarae' ac rwyf wedi datgan fy ngwrthwynebiad yn gyhoeddus i werthiant rhan o Feysydd Chwarae Ysgol Trefain yn ddiweddar ar gyfer Stad Breswyl. Tra bydd y gwerthiant yn golygu cyfleoedd am nifer fechan o dai fforddiadwy, credaf y byddai safleoedd eraill lleol wedi bod yn ddewis gwell a fyddai wedi rhoi cyfle i ddatblygu tir llwyd.

Rwyf yn bwriadu cefnogi Cyngor Cymuned Trefain yn ei ymdrechion i godi arian ar gyfer goleuadau Nadolig newydd ar gyfer y dref eleni. Byddaf yn ymweld â busnesau lleol am gyfraniadau bychain i'r achos teilwng hwn yn ystod y misoedd nesaf a bydd y goleuadau yn rhoi llewys croesawgar ar nosweithiau oer y gaeaf.

Llofnod y Cynghorydd:

Dyddiad:

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	11/12/2012
PWNC	Technoleg gwybodaeth
PWRPAS	Diweddariad ar sefyllfa cyflwyno technoleg gwybodaeth (llechen) i aelodau etholedig
AWDUR	Cynghorydd Dewi Owen Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

1. Beth yw'r sefyllfa gyfredol?

- 1.1 Ers yr etholiad ar y 3ydd o Fai 2012, mae Cyngor Gwynedd wedi symud tuag at fod yn Gyngor sy'n cyfathrebu (i'r rhan helaethaf) trwy ddulliau electroneg. Bydd hyn yn hwyluso'r hygyrchedd i'r holl wybodaeth sydd ar gael, yn sicrhau derbyn gwybodaeth yn gyflym ac amserol, ac yn lleihau costau. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnig cyfarpar TG electroneg personol i aelodau.
- 1.2 Ers adrodd i'r Cyngor llawn ar y 4ydd o Hydref, 2012, mae'r Cyngor wedi symud ymlaen i gyflwyno darpariaeth electroneg i'r holl aelodau sy'n dymuno derbyn y ddarpariaeth.
- 1.3 Bellach, mae'r sefyllfa fel a ganlyn:
- Wedi derbyn cyfarpar / defnyddio eu cyfarpar eu hunain 66
 - Wedi mynegi diddordeb, gorfod ail drefnu sesiwn cyflwyno 4
 - Heb gysylltu nol/ ansicr os ydynt angen cyfarpar 2
 - Ddim eisiau cyfarpar neu cyfarpar ddim yn addas i'r unigolion 3
- 1.4 Yn ogystal a'r sesiynau cyflwyno agoriadol, mae rhai sesiynau cymorth 1 i 1 wedi eu cynnal, gyda'r bwriad o gynnal
- a) sesiynau dilyniant, cyfle i aelodau holi mwy am sut i wneud y defnydd gorau o'r gyfarpar (dewisiol yw'r hyfforddiant yma) a
 - b) sesiwn 'gwneud y defnydd gorau o'r we'
- 1.5 Gwelir uchod fod uchafswm o 5 (posib ei fod yn îs) nad ydynt yn gyfredol yn dymuno defnyddio'r ddarpariaeth.
- 1.6 Er mwyn symud ymlaen gyda'r datblygiadau a gwneud y defnydd gorau o'n adnoddau, argymhellir fod pob gohebiaeth (ble'n bosib) a phob cais cyfarfod gael ei yrru i'r aelodau i gyd drwy ffurf electroneg yn unig.
- 1.7 Yng nghyd-destun y 5 unigolyn, bydd gwybodaeth yn cael ei ddsbarthu ar ffurf papur iddynt hwy. Noder fod gan aelodau'r cyhoedd hawl i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, ac felly ei bod yn ymarfer da sicrhau rhywfaint o gopiau caled o bapurau pwyllgor ar eu cyfer hwy. Bydd copiau i'r 5 yn cael eu cynhyrchu yr un pryd.
- 1.8 Yn ychwanegol, bydd nodyn yn cael ei yrru i'r gwasanaethau yn fewnol i nodi
- Darpariaeth electroneg i 69 aelod
 - Darpariaeth papur i 6 aelod (gan eu henwi)
 - Atgoffa ei bod yn ofynol i ohebiaeth fod ar ffurf pdf
 - Atgoffa am Uchafswm maint neges – 2MB
 - Wrth drefnu cyfarfodydd, sicrhau fod darpariaeth wi-fi yno, neu roi nodyn atgoffa i aelodau agor dogfennau cyn y cyfarfod lle nad oes darpariaeth yno.

2. **Argymhelion**

- 2.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cymeradwyo y canlynol:
- fod pob gohebiaeth (ble'n bosib) a phob cais cyfarfod gael ei yrru i'r aelodau i gyd drwy ffurf electroneg yn unig, gyda'r gweddill i dderbyn copiau caled.
 - Fod nodyn i gael ei yrru at swyddogion o fewn y Cyngor ynghylch yr uchod fel sydd wedi ei nodi yn 1.8 uchod.